

## Rheoli ectoparasitiaid ar ffermydd defaid organig yng Nghymru


Ar hyn o bryd does fawr o wybodaeth am yr arferion presennol o ran rheoli ectoparasitiaid ym mhreiddiau defaid organig Cymru.

Er mwyn unioni'r diffyg gwybodaeth yma, cynhaliwyd arolwg i archwilio'r arferion presennol o ran rheoli ectoparasitiaid ar ffermydd defaid organig yng Nghymru




Gofynnwyd i ffermwyr;

- A ydynt yn trin/rheoli rhag ectoparasitiaid?
- Rhag pa ectoparasitiaid y byddant yn trin?
- Sut y byddant yn trin/rheoli ectoparasitiaid?
- Sut y byddant yn cael gwared â'r cemegau?



Roedd 58% o ffermwyr organig yn trin eu defaid rhag ectoparasitiaid. Roedd 67% o ffermwyr anorganig wedi trin eu defaid rhag ectoparasitiaid


Roedd 37% o ffermwyr organig yn trin eu preiddiau rhag clefyd pryfed yn unig. Roedd 7% o ffermwyr anorganig yn trin eu preiddiau rhag clefyd pryfed yn unig.



### Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol Rhif 1 · Chwefror 2005



Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA 23 3AL. Ffon 01970 622248

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.



Mar 23% o ffermwyr organig yn defnyddio trochi'n unig i drin ectoparasitiaid  
Mae 54% o ffermwyr organig yn defnyddio triniaethau arllwys ar gyfer rheoli ectoparasitiaid

Yn gyffredinol, bu 16% o ffermwyr organig yn defnyddio trochiad bas SP i drin defaid ag ectoparasitiaid. Bu 24% o ffermwyr anorganig yn defnyddio trochiad bas SP.



Roedd 20% o ffermwyr organig a oedd yn trin defaid trwy'u trochi'n defnyddio contractiwr i gael gwared â'r trochiad gwastraff

#### Y prif bwyntiau

- Mae canran tebyg o ffermwyr organig ac anorganig yn trin eu preiddiau rhag plâu ectoparasitiaid
- Er bod y clafr wedi'i restru fel un o'r prif ectoparasitiaid i breiddiau organig ac anorganig, fel ei gilydd, dim ond 3% o breiddiau organig oedd yn cael eu trin rhag y clafr a dim ond 11% o breiddiau anorganig
- Ceir dryswch o ran beth yw'r driniaeth fwyaf addas ar gyfer ectoparasitiaid penodol.
- Dim ond 16% o ffermwyr defaid organig sy'n defnyddio cynhyrchion trochi bas SP
- Nid oes fawr o dystiolaeth i awgrymu bod ffermwyr organig yn cyfrannu'n anghyfartal i lefel achosion llygredd bas SP

Cyhoeddwyd y canlyniadau yma yn yr adroddiad *Controlling ectoparasites on Welsh organic sheep farms*, gan Barbara McLean a David Frost, ADAS Pwllpeiran, 2003. Gweler [www.organic.aber.ac.uk/library/ectoparasiteswales.pdf](http://www.organic.aber.ac.uk/library/ectoparasiteswales.pdf)

### Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol Rhif 1 · Chwefror 2005

Cyhoeddwyd gan *Canolfan Organig Cymru*, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA 23 3AL. Ffon 01970 622248

Ni all *Canolfan Organig Cymru* a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.